

Safoni Enwau Lleoedd

Hywel Wyn Owen

Diolch i chi fel Cymdeithas am y gwahoddiad yma heddiw i gynnig rhai sylwadau personol ar safoni enwau lleoedd.

Mi geisia' i ateb pedwar cwestiwn yn ystod y sgwrs:

1. Beth ydy'r safon?
2. Beth ydy'r drefn bresennol yn genedlaethol ar gyfer safoni enwau lleoedd?
3. Pa egwyddorion y dylid eu parchu wrth safoni?
4. Sut mae datrys rhai o'r enghreifftiau diweddar y dois i ar eu traws o'u mesur nhw yn erbyn yr egwyddorion hynny?

1. Beth ydy'r safon?

Y rhai sy'n ei chael hi brafiac ym myd iaith ydy'r ieithegwyr. Disgrifio proses iaith fel ag y mae hi y mae'r ieithegwyr, disgrifio gwrthrychol a dim mwy. Athrawon ysgol sy'n ei chael hi anoddaf: paratoi plant ar gyfer byd lle mae yna iaith ysgrifenedig safonol yn ogystal ag amrywiadau ansafonol, a gwneud hynny gan barchu ac nid bychanu iaith y plentyn, yr iaith lafar ac iaith yr aelwyd. Mae ceisio cynnig cyngor ar ffurf enwau lleoedd yn ddigon tebyg. Ni thâl *laissez-faire* ac ni thâl gorfodaeth.

Rhaid cydnabod hawl trigolion **Y Felinheli** bellach i beidio â byw yn **Portdinorwig**. Pwy fentra ofyn i wpr y Sosban a'r **Strade** chwarae ym '**Mharc yr Ystradau**'? Pwy fentra sefyll ar ganol **Pont Cysyllte** a herio trigolion o boptu'r Ddyfrdwy i droi cefn ar **Froncysyllte** a mabwysiadu **Froncysylltau** (fel sydd gan Elwyn Davies)? Neu berswadio Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Bangor mai un o '**Gwm Cau**' ydy o ac nid o **Gwm Cou**? Fel un a anwyd yng **Nghemaes** Sir Fôn fydda' i ddim yn mynd efo brws paent i newid **Cemaes** yn **Cemais** (er gwaethaf argymhelliad Melville Richards ac Elwyn Davies).

Tra'n cydnabod a pharchu'r arfer lleol, cofiwn hyn: nid perthyn i un fro yn unig y mae enw, ond perthyn yn hytrach i stoc genedlaethol o enwau. Ac felly, pa mor gryf bynnag ydy teimladau rhai o drigolion **Beumaris**, rwy'n cymryd eu bod nhw'n derbyn nad oes ganddyn' nhw hawl i rwystro eraill rhag mynd i **Biwmares**. Ac nad oes gan bobl **Cricieth** ddim gwrthwynebiad i bawb arall ddilyn rheolau orgraff safonol a pheidio â dyblu -c-.

Mae ceisio safoni a chysoni orgraff a ffurf wedi'i felltithio o'r dechrau gan yr hyn yr ydan' ni wedi'i etifeddu, gan yr anghysonderau nad oes prin modd eu cysoni bellach, anghysonderau a oroesoedd er gwaethaf ymdrechion Syr John Morris Jones i sefydlu rheolau safonol ar gyfer orgraff yr iaith Gymraeg. Cymhwyswyd y rheolau hynny i ddibenion enwau lleoedd yn y ddau lyfr

cyfeirio safonol, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Melville Richards, 1969) a *Rhestr o Enwau Lleoedd / A Gazetteer of Welsh Place-Names* (Elwyn Davies, 1957 a 1967). Ond roedd Elwyn Davies yn gorfod derbyn bod yna derfyn i ddeddfu, a bod rhai enwau yn eithriadau cydnabyddedig gyda ffurfiau sefydlog ddoe yn torri rheolau safonol heddiw, o ran y cysylltnod er enghraifft: **Caerdydd, Pontypridd, Llanrwst**. Dyna ddiwedd rhestr o eithriadau Elwyn Davies. Gellid ychwanegu atyn' nhw **Maesteg, Llanrug, Caerhun, Penmaenmawr**. Onid ydy'r enghreifftau hyn ar ddechrau'r sgwrs, o **Gemaes** i **Gaerdydd**, o **Gricieth** i **Gwm Cou**, yn rhoi neges glir i ni nad oes modd cael safon absoliwt? Wrth sôn am safoni enwau lleoedd mewn iaith esblygol, efallai mai'r hyn sy' mewn golwg ydy cysoni orgraff o fewn terfynau amser, a fawr mwy na hynny.

Fe fûm i'n brwydro am flynyddoedd yn erbyn **Brychdyn**, lleoliad y gwaith awyrennau a'r ganolfan siopa yn Sir y Fflint. Dros ddeg canrif o fodolaeth **Broughton**, nid oes sail hanesyddol i'r Cymreigiad **Brychdyn** yn y rhan Seisnig hon o Sir y Fflint, yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd i **Gwesbyr, Prestatyn, Caergwrle** ac yn y blaen. Pe byddai'r ardal hon rhwng Penarlâg, Queensferry a Chaer wedi bod yn fro Gymreiciach yn yr Oesoedd Canol Cynnar yna **Brychdyn** fyddai'r ffurf. Petai ym Morgannwg, **Brychdwn** fyddai'r ffurf fel sydd eisoes yn y Wig. Mae **Brychdyn** yn hollol gyson yn ffonolegol. Dyna'r patrwm ar gyrion Wrecsam a oedd yn Gymreiciach lle o lawer. Yno, mae lle arall o'r enw (**Pentre**) **Broughton**, gyda digon o enghreifftiau o **Brychdyn** yn y ffurfiau hanesyddol. Diolch i ragdybiaeth ffyddiog rhywun yn tybio mai'r un amgylchiadau ieithyddol oedd i'r ddau le, ac i ddyfalbarhad y cyfryngau, fe enillodd **Brychdyn** ei le, ac y mae o yma i aros, yn dystiolaeth gyfoes o rym y defnyddiwr fel un o'r dylanwadau cryfaf ar enwau lleoedd, ac y mae'n rhaid i mi fodloni ar fynd i siopa i **Frychdyn**. Yr un modd **Connah's Quay** yn yr un sir. Mae cei Mr Connah yno ers 1773 ond yn ddiweddar iawn, o fewn yr ugain mlynedd ddiwethaf, y dechreuwyd arfer **Cei Connah** gan y cyfryngau, ac felly gan weddill Cymru (ond nid i'r un graddau yn lleol). Ond gofawch adael i **Connah** gael dwy -nn- ac -h-, gan mai dyna ei enw.

Wrth ystyried a ydy enwau fel hyn yn safonol mae'n fater o benderfynu ar ba bwynt ar lwybr esblygiad yr enw yr ydach chi, a beth ydy cywair ac iaith y foment. Problem wahanol ydy ymdrin â ffurfiau anacronistaidd, sydd, am wahanol resymau, wedi llithro drwy rwyd orgraff yr iaith Gymraeg. Mae sawl un i'w gweld ar fapiau'r Arolwg Ordnans, megis **Bettws, Côch, Rhpd**, ffosiliau Prydeinig o gyfnodau cynnar yr Arolwg. Bellach, mae gan yr Arolwg Ordnans weledigaeth wahanol, a staff Cymreig sy'n oleuedig ac wedi ymrwymo i ddiweddarau'r enwau ar eu mapiau, fel y gwnaethon nhw wrth fabwysiadu dwyieithrwydd ar gloriau'r mapiau a'r wybodaeth i ddefnyddwyr o fewn y cloriau.

2. Beth ydy'r drefn bresennol?

At bwy y mae troi i ofyn am gyngor cenedlaethol?

Hyd at 2001 roedd gan y Swyddfa Gymreig, ac yna'r Cynulliad, drefniant i ymgynghori â'r Athro Emeritus Gwynedd Pierce yng Nghaerdydd a Tomos Roberts ym Mangor. Daeth eu cytundebau hwy i ben, a'r un pryd fe drosglwyddwyd y cyfrifoldeb o gynnig cyngor i Fwrdd yr Iaith. Trefn y Bwrdd ydy gofyn i mi bellach gynghori'r Cynulliad a Bwrdd yr Iaith. Cyfnewidir gwybodaeth rhwng y ddau gorff. O ganlyniad, pan fo ymholiad yn dod i Linell Gyswilt y Bwrdd mae'n bosib bod yr ateb ganddyn nhw yn barod. Ond fe gymerodd y Bwrdd ddau gam pwysig arall. Y cyntaf oedd sefydlu Panel Safoni Enwau Lleoedd. Mae'r Panel yn cynnwys tri academig, un addysgwr, un cyfieithydd o Adran Gyfieithu'r Cynulliad, cynrychiolydd yr Arolwg Ordnans, a Swyddog Iaith Sirol, gyda dau o Fwrdd yr Iaith yn gweinyddu ac yn cydlynu trefniadau. Ail gam pwysig y Bwrdd oedd hybu a noddi prosiect ym Maldwyn i geisio gweithio yn drefnus ar safoni enwau lleoedd Maldwyn. Roedd dewis Maldwyn yn un amlwg gan fod Powys eisoes wedi cychwyn ar brosiect o'r fath, ac, yn wir, wedi apwyntio Swyddog Maes i ymgynghori â chynghorau a mudiadau lleol. Yn ffodus ddigon roedd Swyddog Cymru o'r Arolwg Ordnans yn hannu o Faldwyn ac mor awyddus â neb i wybod p'un ai **Cemais** neu **Cemaes** oedd hi i fod ym Maldwyn, ac i ganfod statws presennol **Cemmaes Road** wyneb yn wyneb â **Glantwymyn**. Mantais arall dewis un sir i weithio yn fanwl arni oedd datblygu methodoleg a allai fod yn addas i brosiect cyffelyb mewn sir arall.

Y fethodoleg a fabwysiadwyd oedd hyn. Ar ran Maldwyn, darparodd Swyddog Iaith Cyngor Sir Powys yr enwau lleoedd yr oeddynt yn awyddus i'w gwirio, yn seiliedig ar yr enwau a ymddangosai ar fapiau diweddar yr Arolwg Ordnans. Fe wiriais i y rhestr yn wyneb y dystiolaeth academiaidd a'r ffurfiau hanesyddol sydd ar gael yng Nghanolfan Ymchwil Enwau Lleoedd Prifysgol Cymru Bangor. Fe ymatebodd Swyddog Iaith Powys i'r awgrymiadau ar sail ei hadnabyddiaeth hi o arfer y fro. Mewn achosion lle roedd gwahaniaeth barn, cyflwynais y dystiolaeth mewn nodyn cryno ar ran y ddau ohonom. Yna, fe drafodwyd y cyfan gan y Panel Safoni ac argymhell ffurf safonol. Mater i'r Swyddog Iaith wedyn oedd llywio barn ac ymhel â phragmatiaeth enwau lleoedd. Wedi ystyried popeth, cyfrifoldeb Pwyllgor Polisi Iaith Powys oedd cymeradwyo'r ffurfiau mwyaf priodol i Gyngor Sir Powys. Yn fy marn i, mae'n fethodoleg deg sy'n cadw cydbwysedd rhwng y dystiolaeth academiaidd a'r cyfoes, rhwng arfer lleol ac arfer cenedlaethol, ac yn parchu'r broses ddemocrataidd.

3. Egwyddorion safoni

Efallai y bydd yn werth i chi gael gwybod am y canllawiau a ddatblygwyd gan y Panel Safoni. Fe sylwch fy mod yn pendilio rhwng 'egwyddorion' a 'canllawiau'.

1. Dylai pob ffurf gyd-fynd, hyd y bo modd, ag egwyddorion orgraff safonol yr iaith Gymraeg fel ag y mae hi ar ddechrau'r 21 ganrif.
2. Dylid cydnabod, fel man cychwyn, y ffurfiau a argymhellir yn y ddau lyfr safonol, sef *Welsh Administrative and Territorial Units* a *Rhestr Enwau Lleoedd*.

3. Dylid ystyried tystiolaeth academaidd ar darddiad ac ystyr pan fo hynny'n gymorth wrth drafod ffurf.
4. Dylid ymwrthod â ffurf bedantig neu adferiad hynafiaethol onibai bod tystiolaeth i'r adferiad ennill ei blwy yn lleol.
5. Dylid rhoi sylw gofalus iawn i dystiolaeth leol ar fater ynganiad, aceniad a thafodiaith. Fodd bynnag, cydnabyddir bod enw yn perthyn i Gymru gyfan ac y gall enw ymddangos mewn sawl rhan o Gymru. Gwell felly, yw glynu, hyd y bo modd, at orgraff safonol gan dderbyn y bydd amrywiadau lleol yn yr ynganiad ac, ambell waith, yn yr orgraff.
6. Dylid parhau i anelu at arfer un enw yn unig pan nad oes ond rhyw un lythyren o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf Seisnig, gan ochri gyda'r ffurf Gymraeg.
7. Cyfrifoldeb y Panel ydy argymell nid deddfu.
8. Ni fydd y Panel yn bathu enw.

Ar fater bathu enw, fe hoffwn dynnu sylw at arferion a pholisïau'r Cyngor Cefn Gwlad (CCG) y byddaf yn eu cynghori yn rheolaidd. O bryd i'w gilydd mae angen bathu enw wrth ddynodi safle newydd, megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) neu warchodfa sy'n ymestyn dros sawl acer ac yn cwmpasu sawl nodwedd tirweddol. Mae'r teitl **Coedydd Aber**, er enghraifft, yn cyfeirio at warchodfa CCG yn y nant goediog honno rhwng pentre Aber, Afon Anafon, Afon Rhaeadr Fawr a'r rhaeadr ei hun. Dyma endid cadwraethol newydd, ac yr oedd angen enw penodol iddo. Felly, **Coedydd Aber**. Mae bathu ar gyfer safle hefyd yn caniatáu iddyn' nhw ddewis rhwng yr enw Cymraeg a'r enw Saesneg. Hyd y bo modd, polisi iaith CCG ydy ffafrio enw Cymraeg fel yr unig enw swyddogol. **Ynys Enlli a Bardsey** yw'r enwau ar yr ynys, **Enlli** ydy enw'r safle cadwraethol. Diddorol hefyd yw polisi CCG ar gyfer arwyddion. Er enghraifft, hyd y bo modd, mae CCG yn ceisio osgoi treigliadau mewn pennawd ar arwydd. Y demtasiwn ydy cyfieithu'r pennawd 'Penmon to Beaumaris Coast' fel 'Arfordir Penmon i Fiwmares', ond er mwyn osgoi 'Fiwmares' yn llythrennau bras y pennawd fe ddefnyddir cysylltnod: **Arfordir Penmon-Biwmares**. Ond yn naturiol treigilir o fewn y paragraff ar yr arwydd sy'n egluro nodweddion y llwybr 'o Benmon i Fiwmares'. Mae llawer i'w ddweud hefyd am eu harfer o gywasgu ac osgoi ailadrodd ar arwyddion: '**Gwarchodfa Natur Cadair Idris Nature Reserve**', '**Clogwynni Saundersfoot Cliffs**'.

4. Enghreifftiau diweddar

Mi droia' i rwan at enghreifftiau o'r math o ymholiadau a ddaeth, yn bennaf, o gyfeiriad y Cynulliad, CCG a phrosiect Maldwyn ond hefyd oddi wrth adran gyfieithu ambell sir ac oddi wrth unigolion. Rydw i'n amau'n gryf iawn y bydd pob un ohonoch chi wedi dod ar draws yr union broblemau sawl tro.

.1 Problem yr anghyfarwydd a'r naif

Sawl gwaith y clywsoch chi hyn? 'I asked the chap at the office who speaks Welsh and he's come up with the translation for these place-names'. Mewn sawl corff mae'n amlwg nad oes trefn i sicrhau a lledaenu gwybodaeth am

enwau lleoedd. Oni fyddech hefyd yn cytuno â mi bod yr ymadrodd 'the translation' yn canu clychau larwm wrth sôn am enwau lleoedd?

.2 Amrywiadau tafodieithol

Cadair ynte **Cader Idris**? Enw cyffredin yng Nghymru ar gopa yw **cadair**. Felly, a dilyn yr egwyddor mai enw cenedlaethol ydy o, dylid arfer **Cadair Idris** tra'n cydnabod mai yn Nolgellau y mae **Ysgol y Gader** ac mai yn Sir Gaerfyrddin y mae **Pencader**.

.3 Amrywiadau sillafu neu atalnodi

Tredegar ynte **Tredegyr**? Y plasyd ydy **Plas Tredegyr** ar ôl y teulu a hannai o gyff dyn o'r enw **Tegyr**, ond **Tredegar** yw'r lofa a agorwyd gan y teulu a'r pentref o'i amgylch.

Llan-wern, gyda chysylltnod, ydy'r pentref, gan ddilyn rheol aceniad, ond aeth y gwaith dur yn **Llanwern** heb gysylltnod trwy arfer ar arwyddion ers blynyddoedd. Gellid dadlau hefyd mai teitl masnachol ydy **Llanwern**, ac felly bod hawl ganddyn' nhw i fabwysiadu'r ffurf a fyddant.

Abermo ynte **Abermaw**? Mae hwn yn ddadleuol iawn. **Abermaw** sydd wedi ymddangos ar arwyddion ers sbel bellach. Enw'r afon oedd **Mawdd**. O **Aber-mawdd** y daeth **Barmouth** wrth gwrs. Ond ers canrifoedd symudod yr aceniad i'r goben a chollwyd y gytsain derfynol ac fe aeth **Aber-mawdd** yn **Abermawdd** ac yna'n **Abermaw** ac wedyn yn **Abermo** cyn gorffen yn **Y Bermo** (ffurf gyffredin anffurfiol, yn lleol ac yn genedlaethol, ers blynyddoedd maith). Fy marn i yw y dylid glynu at **Abermo** fel ffurf safonol. Adferiad hynafiaethol ydy **Abermaw** nad oes neb yn ei arddel beth bynnag. Y piti yw hyn: po hiraf y mae'r enw yn gyhoeddus ar arwyddion po debyca ydy hi i ddiethriaid di-Gymraeg ei arddel ac yn waeth byth i Gymry Cymraeg hefyd dybio mai dyna y dylid ei ddweud a'i sgwennu. O ganlyniad, **Abermaw** sydd ar fapiau'r Arolwg Ordnans. Ffenomenon **Criccieth** eto. Digwyddodd rhywbeth tebyg yn Sir Fôn: bellach, mae llawer mwy yn dehongli **Aberffraw** fel **Aber-ffraw** nac sy'n dweud **Aberffro** neu **Y Berffro**.

.4 Anelu at un ffurf yn unig

Ers blynyddoedd mae yna dueddiad i resymoli ffurfiau deuol lle nad oes yna ond rhyw un gytsain neu un llafariad o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf Seisnig. Digwyddodd hyn yn rhannol wrth i orgraff anghymreig ddiflannu: **Llanelly, Conway, Aberdovey, Bryn kir, Vardre, Vaenol**. Mewn ambell le mae'r teimladau yn gryf yn erbyn rhesymoli. Mae cefnogwyr **Tydfil** yn llunerthol, diysgog. Oni ddylid, ond a ellir, rhesymoli **Caerphilly**? Siawns nad oes dim angen **Abertysswg** a **Pontllo tyn**? Beth am **Kinmel** ger Bodelwyddan? **Cil**, cornel 'nook' yn perthyn i **Mael** oedd **Cilmel**. Aeth hwnnw'n **Cinmel** trwy ddadfathiad -l- o flaen -m-, ond mae parhad **Kinmel** i'w briodoli i ddylanwad safle'r fyddin yn **Kinmel Camp** a phlasyd **Kinmel Hall**. Beth am **Ruthin**? Yn eironig, mae **Ruthin** yn nes ati hi na **Rhuthun**, oherwydd y tarddiad ydy **rhudd** 'coch' a **din** 'caer, amddiffynfa'. Mi welwch chi'r dywodfaen goch yn adfeilion yr hen gastell. O ble y daeth yr -un? Mae o yno ers y 14ganrif. Dylanwad yr -u- blaenorol efallai, ac efelychiad o'r terfyniad - yn a welir yn **Prestatyn, Sychdyn** ac yn y blaen. Cofiw'n hefyd fod perygl wrth ddilyn llwybr rhesymoli. Ydy gwpr glew addysg Gymraeg Sir **y Fflint** yn fodlon

gweld **Flint** fel yr unig ffurf? Choelia' i fawr. Mae'r fannod yn dangos Cymreictod mabwysiedig **Y Fflint**.

.5 Cadw ffurfiau Saesneg a Seisnig mewn cyd-destun arbennig

Rhosydd Yerboston, Arfordir Penrhyn Angle, y ddau ym Mhenfro...**Comin Lock** am **Lock's Common** ger Pen-y-bont gan mai enw personol ydy **Lock**... **Traethell Scarweather** am **Scarweather Sands** sydd o dan y môr rhwng Port Talbot a Phorthcawl.

Dylid cadw at yr un egwyddor wrth gyfeirio at sefydliad hanesyddol. Daeth hyn i'r amlwg wrth gynghori'r *New Dictionary of National Biography* sy'n dyfynnu o ddogfennau hanesyddol: ...Yn **Llai** y digwyddodd damwain fawr glofa **Llay Main** Yn **Llanofer** mae **Llanover House**.... Yn **Llanymddyfri** y mae **Llandoverly College**....

Yr un egwyddor ydy hon â pharchu enwau personol. Un o **Forgannwg** oedd **lolo Morganwg**.... Roedd Syr John **Rhps** yn rhoi to ar ei gyfenw.... ac **Edward Lhuyd** oedd yr hynafieithydd hynod hwnnw y sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd er cof amdano.

.6 Cysondeb mynegeion

Daeth hyn i'r amlwg wrth gynghori prosiect i greu cronfa-ddata i fynegeio siarteri a dogfennau hanesyddol ym Mhrydain. O dan pa lythyren o'r wyddor y dylid gosod **Y Trallwng, Y Bala, Y Drenewydd** ac yn y blaen? Mae peryglon mewn mynegeio o dan **Y**. Sawl Cymro Cymraeg, heb sôn am y di-Gymraeg, fyddai'n chwilio am **Bala** o dan **Y**, neu **Rhyl** o dan **Y Rhyl**? Dilyn Elwyn Davies yw un opsiwn sef **Bala, Y, Trallwng, Y**. Ond yr arferiad gorau yw cynnwys pob opsiwn trwy groesgyfeirio: '**Trallwng, Y see Y Trallwng**', '**Y Trallwng see Welshpool**'.

.7 Termau tirweddol

Rhaid cyfaddef fy mod o blaid trosi elfennau tirweddol: **St Govan's Head, Pentir Gofan: Lock's Common, Comin Lock; Yerboston Moors, Rhosydd Yerboston**. Mae *Geiriadur yr Academi* yn gymorth mawr yma yn ogystal â geirfaoedd termau addysg. 'Ffawt' ydy 'fault', 'twyni' ydy 'burrows', 'pil' ydy 'pill'. Wrth gyfieithu 'gorge' ceisiwch ddarganfod p'un ai 'nant' ynte 'ceunant' sydd fwyaf addas i'r tirwedd. Y cyfieithiad gorau o 'roads' morwrol ydy 'angorfeydd'.

.8 Ymddangosiadau newydd

Dyma'r rhai sy'n peri mwya o drafferth i mi gan nad ydw i'n gwybod o ble y daethon' nhw. Ac rydw i'n amau ambell un. Efallai bod sail lleol sy'n anghyfarwydd i weddill Cymru. Efallai bod enwau coll wedi eu hatgyfodi. Efallai bod rhywun brwdfrydig, a'i galon yn y lle iawn, wedi bod wrthi'n bathu. Yn aml iawn dydw i yn bersonol ddim yn gwybod, 'does yna ddim cofnod o'r rheswm na dyddiad yr ymddangosiad, ac rydw i'n gyndyn iawn o gynnig cyngor. Annigonol ydy'r wybodaeth ganolog, genedlaethol.

'Oes yna enw Cymraeg ar y **Devil's Staircase** yn Nant Irfon?' gofynnodd CCG. Wedi holi, darganfod mai **Penrhuddfa** oedd enw'r allt, sef **rhudd** 'coch'. Daeth **Devil's Staircase** i fodolaeth pan oedd yr allt yn denu motobeics yn 30au'r ganrif ddiwethaf. Ond nid oes beics yno mwyach, ac felly roedd CCG yn hapus iawn i fabwysiadu **Penrhuddfa** fel enw ar eu safle. Ac fe ddaeth

gwybodaeth leol am ymddangosiad a difflaniad **Devil's Staircase** yn gofnod canolog, cenedlaethol, ar gael i bawb.

O ble y daeth **Cil-y-coed** fel enw ar **Caldicot**? Dydw i ddim yn gwybod, ond y fi ydy hwnnw. Er edrych ar ryw 50 o ffurfiau hanesyddol o **Caldicot** o'r 11ganr. ymlaen nid oes sôn am **Cil-y-coed** (ac eithrio un enghraifft amheus o *Calecoyth* ar fap Leland 1536-9). Ond erbyn heddiw mae yno **Ysgol Cil-y-coed**, y ward etholiadol ydy **Castell Cil-y-coed**, ac y mae'n enw stryd yn Caldicot. Dyna arferiad y cyfryngau hefyd.

Enw hyfryd yw **Penpedairheol** yn Ystradmynach. Ond rwy'n casglu bod gan drigolion lleol enw cwbl wahanol ar y pentref, sef **Cascade**: Cascade Florists, Cascade Sports Shop, Cascade AFC.

Gyda sialens fel yna, a chasgêd o enghreifftiau, mi ddo' i â'r sgwrs i ben. Ond wrth gloi mi gynigia' i bedwar awgrym i gryfhau'r drefn bresennol o safoni enwau lleoedd.

1. Annog siroedd eraill i safoni enwau lleoedd trwy fabwysiadu methodoleg prosiect Maldwyn.
2. Sefydlu rhwydwaith genedlaethol i rannu gwybodaeth am ffurfiau safonol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ategol berthnasol.
3. Sefydlu rhwydwaith o ymgynghorwyr sirol goleuedig i gynnig gwybodaeth ar ddefnydd lleol.
4. Gwahodd Bwrdd yr Iaith i gydlynu'r cyfan fel rhan o wasanaeth y Bwrdd.

*hawlfraint y copi electronig: Yr Athro Hywel Wyn Owen, Cyfarwyddwr, Canolfan Ymchwil Enwau Lleoedd, Prifysgol Cymru Bangor, hywel.w.owen@bangor.ac.uk
cylchrediad: aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru*

18 Rhagfyr 2002